# UN LLAIS CYMRU -

## yn cynrychioli cynghorau cymuned a thref

# Ydw i'n Gymwys?

**Ydych – mae'r rhan fwyaf o bobl yn gymwys. Ond mae yna rai rheolau:**

**Mae'n rhaid ichi fod:**

- yn ddeiliad Prydeinig, neu'n ddinesydd y Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd, ac ar y "dyddiad perthnasol" (h.y. ar y diwrnod y cewch eich enwebu neu os oes pleidlais, ar ddiwrnod yr etholiad) yn 18 oed neu drosodd;

a hefyd:

- ar y "diwrnod perthnasol" yn etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal cyngor yr ydych eisiau sefyll ynddi; neu
- yn ystod y 12 mis blaenorol cyfan cyn y diwrnod hwnnw wedi meddiannu yn berchennog neu denant unrhyw dir neu eiddo arall yn yr ardal cyngor; neu
- yn ystod yr un cyfnod wedi gweithio'n bennaf neu yn llwyr yn yr ardal cyngor; neu
- yn ystod y cyfnod hwnnw o 12 mis wedi byw yn yr ardal cyngor.

Ar gyfer person sydd eisoes yn aelod o gyngor cymuned gallwch hefyd fodloni'r meini prawf i gael eich ethol os ydych wedi byw yn yr ardal cyngor neu o fewn 3 milltir iddo am y 12 mis cyfan blaenorol cyn y "diwrnod perthnasol".

**Ni allwch gynnig eich hun ar gyfer etholiad os ydych**

- yn gaeth gan orchymyn cyfyngiad methdaliad neu orchymyn dros dro
- o fewn pum mlynedd cyn diwrnod yr etholiad wedi'ch cael yn euog yn y Deyrnas Gyfunol o unrhyw drosedd ac os cawsoch ddedfryd o garchar (boed wedi'i gohirio ai peidio) am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis ac heb gael y dewis o gael dirwy.
- yn gweithio i'r cyngor yr ydych eisiau bod yn gynghorydd arno (ond gallwch weithio i awdurdodau lleol eraill, gan gynnwys y prif awdurdodau sy'n cynrychioli'r un ardal).

**Ond rydw i'n rhy ifanc…**

Mae rhai cynghorau cymuned hefyd yn rhedeg cynghorau ieuenctid, sy'n cynnwys nifer o bobl ifanc yn cynrychioli eu hardal leol. Maen nhw'n cael eu fforwm gwleidyddol eu hunain trwy gael lle ac amser i gyfarfod a thrafod materion sy'n eu heffeithio. Mae gan y cynghorau ieuenctid hyn gysylltiad uniongyrchol gyda'u cynghorau cymuned fel y gallant fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Cysylltwch â'ch cyngor cymuned neu siaradwch â'ch ysgol i gael gwybod a yw'r naill neu'r llall yn gysylltiedig â chynllun o'r fath ac i ddweud fod gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan. Os nad oes cynllun o'r fath, neu fforwm ieuenctid cymunedol, beth am gael grŵp o'ch ffrindiau at ei gilydd a rhoi cynnig i'ch cyngor cymuned neu dref lleol.

**Dydw i ddim yn aelod o blaid wleidyddol a dydw i ddim eisiau bod**

Nid yw'r rhan fwyaf o gynghorwyr cymuned a thref yn cynrychioli pleidiau – ac mae llawer sydd yn gynghorydd i blaid wleidyddol mewn sector arall yn peidio sefyll dros blaid wleidyddol ar eu cyngor cymuned.

Os ydych eisiau sefyll yn ymgeisydd dros blaid wleidyddol, mae croeso ichi wneud hynny. Cysylltwch â swyddfa leol eich plaid i gael rhagor o wybodaeth.

Un Llais Cymru, 24 Stryd y Coleg, RHYDAMAN, SA18 3AF
01269 595400 www.onevoicewales.org.uk